

# Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Cwestiynau Cyffredin i Ymgeiswyr



## Cynnwys

Pwy all gael gwiriad DBS drwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)? .....	4
Sut mae gwybod a ydw i'n gymwys i gael gwiriad DBS? .....	4
A yw'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn Gymraeg? .....	5
Pryd gallaf wneud cais i adnewyddu fy nhystysgrif DBS gyfredol? .....	5
Sut mae dechrau arni? .....	5
Beth sydd nesaf? .....	6
Gwiriadau i gadarnhau pwy ydych .....	6
Faint fydd gwiriad drwy Swyddfa'r Post yn ei gostio? .....	6
Faint fydd gwiriad DBS yn ei gostio? .....	6
Sut ydw i'n talu am fy ngwiriad DBS? .....	6
Beth fydd yn digwydd os bydd gwybodaeth 'gadarnhaol' ar fy nhystysgrif DBS? .....	7
Beth yw Gwasanaeth Diweddarau DBS? .....	7
Beth yw buddiannau Gwasanaeth Diweddarau DBS? .....	7
Sut ydw i'n tanysgrifio? .....	8
Pam a sut mae AGC yn gwirio fy nhystysgrif ar-lein? .....	8
Nid wyf wedi tanysgrifio ar gyfer Gwasanaeth Diweddarau DBS. Sut y byddwch yn gwirio fy nhystysgrif DBS? .....	9
Sut rydych yn rheoli'r wybodaeth rwy'n ei darparu? .....	9
Sut y gallaf gael help os byddaf yn cael anawsterau gyda'r system? .....	10
Ble gallaf gael mwy o wybodaeth? .....	10

## Cwestiynau Cyffredin DBS i Ymgeiswyr

### Pwy all gael gwiriad DBS drwy Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)?

I'r rheini sy'n gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, gall y grwpiau canlynol o bobl gael gwiriad DBS drwy AGC os na allant gael un drwy gorff mantell neu gorff arall:

- Personau cofrestredig (gan gynnwys gwarchodwyr plant cofrestredig);
- Unigolion cyfrifol;
- Cynorthwywyr gwarchod plant;
- Aelodau o'r cartref;
- Unigolion sy'n 'byw mewn' gwasanaeth cofrestredig (16+ oed).

Gall unigolion gael eu tystysgrif eu hunain drwy gorff mantell a'i chyflwyno i AGC ar yr amod nad oes mwy na thri mis wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyflwyno.

P'un a ydych yn cael gwiriad eich hun neu'n defnyddio AGC, bydd angen ichi fod yn gymwys am wiriad Manylach (â Rhestr Waharddedig).

### Sut mae gwybod a ydw i'n gymwys i gael gwiriad DBS?

I fodloni'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwiriad DBS drwy AGC (neu drwy gorff mantell neu sefydliad arall) rhaid ichi:

- Fod yn 16 oed neu'n hŷn;
- Gweithio neu fod ynghlwm wrth rôl neu weithgaredd lle rydych yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed, neu lle y gallai hynny ddigwydd;
- Gweithio neu fod ynghlwm wrth ardal gweithlu ragnodedig ar gyfer plant a/neu oedolion;
- Bod yn [gymwys](#)<sup>1</sup> i gael gwiriad Manylach (â Rhestr Waharddedig).

Bydd pob ymgeisydd sy'n darparu gwasanaeth sydd wedi'i gofrestru ag AGC neu sydd fel arall wedi'i gysylltu â gwasanaeth o'r fath (gweler uchod) ac yn gofyn am wiriad drwy AGC, yn gymwys am wiriad Manylach (â Rhestr Waharddedig).

Byddwn yn penderfynu ar eich cymhwysedd am wiriad. Os byddwch yn gymwys, byddwn yn eich atgyfeirio at ein darparwr trydydd parti sy'n cynnal gwiriadau DBS ar ein rhan drwy ei system ar-lein.

---

<sup>1</sup>[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/674523/Guide\\_to\\_eligibility\\_v9.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674523/Guide_to_eligibility_v9.pdf)

## A yw'r gwasanaeth ar-lein ar gael yn Gymraeg?

Ydy. Pan fyddwch yn mewngofnodi'r tro cyntaf, cewch yr opsiwn i ddewis Cymraeg neu Saesneg.

## Pryd gallaf wneud cais i adnewyddu fy nhystysgrif DBS gyfredol?

Mae'r [rheoliadau amrywiol](#)<sup>2</sup> yn gofyn ichi adnewyddu eich tystysgrif DBS bob tair blynedd. Chi sy'n gyfrifol am hyn ac ni fydd AGC yn eich atgoffa i wneud hynny.

Os bydd angen i chi adnewyddu eich tystysgrif DBS gyfredol gyda ni, ni ddylech wneud hynny tan bod mis cyn dyddiad adnewyddu eich cais. Mae ein proses ar-lein yn gyflym a chaiff y rhan fwyaf o wiriadau eu cwblhau o fewn 10 diwrnod. Weithiau byddant yn cymryd mwy o amser os bydd gwybodaeth ar y dystysgrif a/neu os ydych wedi byw mewn ardal fetropolitan fawr.

Os byddwch yn cyflwyno eich tystysgrif DBS eich hun i ni, rhaid iddi fod yn 'ddilys' (h.y. nad oes mwy na thri mis wedi mynd heibio ers iddi gael ei chyhoeddi). Ni allwn dderbyn tystysgrif, at ddibenion adnewyddu na chofrestru, os yw'n fwy na thri mis.

**Noder: Os ydych wedi cofrestru ar gyfer gwasanaeth diweddarau DBS a bod gennych danysgrifiad cyfredol, bydd eich DBS yn adnewyddu bob blwyddyn a dim ond gorfod adnewyddu eich tystysgrif DBS os bydd eich tanysgrifiad yn dod i ben y bydd angen i chi ei wneud.**

## Sut mae dechrau arni?

Os nad ydych wedi gwneud eisoes, rhaid i chi'n gyntaf gysylltu ag AGC ar **0300 7900 126** gan ddewis opsiwn 3 a gofyn am wiriad DBS. Unwaith y byddwn wedi cadarnhau eich bod yn gymwys i gael gwiriad a'n bod wedi hysbysu ein darparwr trydydd parti am hyn, cewch e-bost ar wahân yn cynnwys dolen i'w borth ar-lein; rhif cyfeirnod unigryw ac enw defnyddiwr. Dylech ddefnyddio'r rhain i fewngofnodi i system ar-lein y darparwr DBS er mwyn cwblhau eich ffurflen gais DBS ar-lein (dilynwch y ddolen yn yr e-bost).

---

<sup>2</sup> <https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-canllawiau-statudol-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gwasanaethau-oedolion-phlant>

## **Beth sydd nesaf?**

Bydd angen i chi fewngofnodi gan ddefnyddio'r manylion a roddwyd yn yr e-bost awtomatig er mwyn dechrau eich cais.

## **Gwiriadau i gadarnhau pwy ydych**

Caiff gwiriadau adnabod eu cynnal gan Swyddfa'r Post o 1 Gorffennaf 2021 er mwyn gwneud y canlynol:

- Cadarnhau pwy yw ymgeisydd;
- Dilysu dogfennau adnabod yr ymgeisydd.

Wrth gwblhau eich ffurflen gais ar-lein, bydd rhaid i chi ddewis pa ddogfennau adnabod y byddwch yn eu defnyddio i brofi pwy ydych. Unwaith y byddwch wedi dewis y dogfennau, bydd y system yn cynhyrchu cod bar.

Mae'r cod bar hwn yn rhoi gwybod i Swyddfa'r Post fod angen gwiriad adnabod arnoch, a pha ddogfennau y byddwch yn dod â nhw i'r gwiriad.

**Rhaid** i chi ddod â'r cod bar i swyddfa bost ynghyd â'r dogfennau y gwnaethoch eu dewis ar eich ffurflen gais neu ni fydd yn bosibl cynnal eich gwiriad adnabod.

## **Faint fydd gwiriad drwy Swyddfa'r Post yn ei gostio?**

Mae ffi o £12 yn daladwy unwaith y byddwch wedi cwblhau eich gwiriad adnabod.

## **Faint fydd gwiriad DBS yn ei gostio?**

Pan fyddwch yn cwblhau eich gwiriad DBS ar-lein gyda ni, bydd angen ichi dalu ffi DBS (£40 ar hyn o bryd) a ffi weinyddol (£8 + TAW ar hyn o bryd).

## **Sut ydw i'n talu am fy ngwiriad DBS?**

Rhaid ichi dalu am eich gwiriad DBS a'r ffi weinyddol drwy'r gwasanaeth ar-lein. Gofynnir ichi dalu drwy *PayPal* neu un o'r prif gardiau debyd neu gredyd (heblaw am American Express); ni ellir talu drwy arian parod na siec. Mae hon yn system ddiogel ac ni chaiff eich manylion personol eu storio na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni ellir ad-dalu unrhyw ffioedd.

## **Beth fydd yn digwydd os bydd gwybodaeth 'gadarnhaol' ar fy nhystysgrif DBS?**

Cawn wybod gan ein darparwr trydydd parti os bydd tystysgrif yn cynnwys gwybodaeth sy'n cynnwys manylion rhybudd neu euogfarn er enghraifft. Byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn ichi naill ai anfon eich tystysgrif atom drwy wasanaeth post diogel neu ei chyflwyno'n bersonol. Rhaid inni weld y dystysgrif bob tro oherwydd ni allwn fod yn sicr fel arall nad yw'r wybodaeth 'gadarnhaol' yn newydd (Un o fanteision Gwasanaeth Diweddarau DBS yw na fydd angen ichi wneud hyn mwyach lle na ddatgelir unrhyw wybodaeth newydd).

Byddwn bob amser yn ystyried unrhyw wybodaeth o'r fath mewn ffordd gymesur ac yn delio â phob enghraifft fesul achos.

Lle byddwn yn ymwybodol a'n bod wedi ystyried yn flaenorol wybodaeth 'gadarnhaol' ar dystysgrif DBS, byddwn yn dychwelyd eich tystysgrif atoch fwy na thebyg. Fodd bynnag, os bydd gwybodaeth newydd ar eich tystysgrif ac nad ydym yn ymwybodol ohoni, mae'n debygol y bydd angen inni drafod hyn â chi ymhellach.

Os byddwch wedi cael gwiriad DBS yn annibynnol, bydd angen inni weld eich tystysgrif ddiweddaraf hyd yn oed os nad yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth nac unrhyw wybodaeth ychwanegol. Bydd angen ichi ei chyflwyno'n bersonol neu ei hanfon atom drwy wasanaeth post diogel. Rhaid ichi gyflwyno eich tystysgrif inni o fewn tri mis i'w chyhoeddi.

## **Beth yw Gwasanaeth Diweddarau DBS?**

Tanysgrifiad ar-lein yw'r [Gwasanaeth Diweddarau](#)<sup>3</sup> sy'n eich galluogi i gadw eich tystysgrif DBS yn gyfredol a, gyda'ch caniatâd, sy'n galluogi AGC i wirio statws eich tystysgrif yn gyfnodol.

Mae'r gwasanaeth ar gael am ffi flynyddol (£13 ar hyn o bryd) a rhaid i'ch tanysgrifiad gael ei adnewyddu bob blwyddyn os ydych am barhau i fwynhau buddiannau'r gwasanaeth.

## **Beth yw buddiannau Gwasanaeth Diweddarau DBS?**

Mae AGC yn argymhell y dylai pob ymgeisydd achub ar y cyfle i danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau DBS yn ystod y broses gwneud cais ar-lein. Drwy wneud hynny gallwch fwynhau buddiannau'r gwasanaeth; yn eu plith mae'r canlynol:

- Gwasanaeth sy'n gyflym ac yn gyfleus i chi ei ddefnyddio;

---

<sup>3</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-update-service-applicant-guide/dbs-update-service-applicant-guide>

- Y gallu i reoli eich gwiriad DBS eich hun at ddibenion cyflogaeth a gwirfoddoli;
- Ddim yn gorfod adnewyddu eich tystysgrif bob tair blynedd – ar yr amod eich bod yn cynnal eich tanysgrifiad ar gyfer Gwasanaeth Diweddarau DBS ac nad oes unrhyw wybodaeth newydd yn dod i law wrth wirio eich statws;
- Arbed amser ac arian i chi drwy beidio â gorfod teithio i swyddfa AGC i adnewyddu eich tystysgrif DBS;
- Gall AGC bellach dderbyn sicrwydd Gwasanaeth Diweddarau DBS (ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr); hyd yn oed (fel sy'n wir yn y rhan fwyaf o achosion) na chafodd eich tystysgrif DBS wreiddiol ei chydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

Cyn belled â'ch bod yn cynnal eich tanysgrifiad ac nad oes unrhyw newid i statws eich tystysgrif, ni fydd angen i chi adnewyddu eich tystysgrif fel sy'n ofynnol gan [reoliadau](#)<sup>4</sup>.

## **Sut ydw i'n tanysgrifio?**

Gallwch ddewis tanysgrifio drwy'r gwasanaeth ar-lein wrth gwblhau eich cais DBS. Gofynnir ichi gadarnhau eich bod yn cytuno i AGC gynnal gwiriadau cyfnodol o statws eich tystysgrif ar-lein.

Fel arall, pan fyddwch wedi derbyn eich tystysgrif DBS newydd, bydd gennych 30 diwrnod calendr o'r dyddiad y cawsoch eich tystysgrif i danysgrifio. I wneud hyn gallwch hefyd [danysgrifio](#)<sup>5</sup> ar wefan DBS.

## **Pam a sut mae AGC yn gwirio fy nhystysgrif ar-lein?**

Drwy danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau DBS bydd AGC yn cynnal gwiriadau cyfnodol o statws eich tystysgrif ar-lein – gwneir hyn i gadarnhau nad yw statws eich tystysgrif wedi newid ers iddi gael ei lanlwytho gyntaf. Byddwn yn defnyddio [porth ar-lein DBS](#)<sup>6</sup> i wneud hyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd unrhyw newid i statws tystysgrif – mae hyn yn golygu nad yw'r dystysgrif wreiddiol yn cynnwys unrhyw wybodaeth – neu nad oes unrhyw wybodaeth newydd.

Mewn nifer bach o achosion fodd bynnag, bydd y gwiriad statws yn dynodi bod gwybodaeth newydd wedi dod i law. Ni fydd y gwiriad yn datgelu natur y wybodaeth newydd. I weld y wybodaeth newydd, bydd angen inni gysylltu â chi

---

4 <https://arolygiaethgofal.cymru/rheoliadau-canllawiau-statudol-safonau-gofynnol-cenedlaethol-gwasanaethau-oedolion-phlant>

5 <https://www.gov.uk/government/publications/dbs-update-service-applicant-guide/dbs-update-service-applicant-guide>

6 <https://secure.crbonline.gov.uk/crsc/check?execution=e1s1>



a'ch hysbysu bod eich statws ar-lein wedi newid. Bydd angen ichi gwblhau cais DBS newydd.

**Noder:** Os ydych wedi cofrestru â ni, neu eich bod fel arall yn destun tystysgrif DBS sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cofrestredig, bydd yn ofynnol i chi o dan y gyfraith ein hysbysu o unrhyw euogfarn neu rybudd gan yr heddlu. Gall methiant i wneud hyn hefyd ddynodi methiant rheoliadol ac mae'n debygol y caiff hyn ei drafod ymhellach â chi.

## **Nid wyf wedi tanysgrifio ar gyfer Gwasanaeth Diweddarau DBS. Sut y byddwch yn gwirio fy nhystysgrif DBS?**

Bydd ein darparwr trydydd parti yn rhoi gwybod i ni fod eich gwiriad DBS wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn nodi'n syml nad oes unrhyw wybodaeth ychwanegol yn gysylltiedig â'ch gwiriad sydd wedi'i gwblhau. Ni fydd angen inni weld y tystysgrifau hyn.

Fodd bynnag, os bydd eich gwiriad yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ('cadarnhaol') byddwn hefyd yn cael gwybod am hyn.

Os byddwn eisoes yn ymwybodol o'r wybodaeth yn eich tystysgrif, a'i bod hi wedi cael ei hystyried yn flaenorol, ni fydd angen inni weithredu ymhellach. Fodd bynnag, os bydd y wybodaeth yn newydd ac nad yw wedi cael ei datgelu gennych, efallai y bydd angen inni drafod hyn â chi ymhellach.

Byddwn yn cysylltu â chi ac yn gwneud y canlynol:

- Gofyn am gael gweld eich tystysgrif wreiddiol (gallwch naill ai ddod â hi i un o'n swyddfeydd neu ei phostio gan ddefnyddio gwasanaeth post diogel);
- Ystyried cynnwys y dystysgrif;
- Dychwelyd y dystysgrif atoch drwy ei phostio lle y bo modd.

**Nodwch:** Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i unigolion sydd wedi'u cofrestru â ni, neu sydd fel arall yn destun tystysgrif DBS o ran gwasanaeth cofrestredig, ein hysbysu am unrhyw euogfarn neu rybudd gan yr heddlu. Gall methiant i wneud hyn ddynodi methiant rheoliadol ac mae'n debygol y caiff hyn ei drafod ymhellach â chi.

## **Sut rydych yn rheoli'r wybodaeth rwy'n ei darparu?**

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol a/neu sensitif yn deg ac yn gyfreithlon, ac rydym ond yn gofyn am wybodaeth lle mae ei hangen arnom er mwyn

cyflawni ein rôl. I gael rhagor o wybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol, gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#)<sup>7</sup>.

Mae'r datganiad uchod hefyd yn gymwys i'n darparwr trydydd parti. Mae ei system ar-lein yn ddiogel a chaiff y wybodaeth sy'n cael ei storio yno, gan gynnwys manylion personol ac ariannol, ei rheoli'n ddiogel, ac ni chaiff ei rhannu â thrydydd partïon.

## **Sut y gallaf gael help os byddaf yn cael anawsterau gyda'r system?**

Mae gwasanaeth llinell gymorth am ddim ar gael (**0808 164 2724**) i bawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth (mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg) rhwng 8.30am a 5.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (heb gynnwys Gwyliau Banc). Mae'r llinell gymorth hon yn cael ei rhedeg gan ein darparwr trydydd parti a bydd ei gynghorwyr ar gael i'ch cynorthwyo gydag unrhyw heriau y gallwch fod yn eu hwynebu.

Hefyd, mae'r system wedi cael ei dylunio fel na fydd modd ichi barhau i'r sgrin nesaf os na fydd cwestiwn wedi'i ateb neu os bydd gwybodaeth allweddol, megis rhif trwydded yrru, wedi'i rhoi'n anghywir. Mae'r system wedi cael ei dylunio i leihau'r siawns o wneud gwall wrth gwblhau'r broses gwneud cais. Bydd hyn hefyd yn cyflymu'r broses o ddychwelyd eich gwiriad DBS.

## **Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?**

Mae mwy o wybodaeth ar gael drwy'r dolenni canlynol:

<https://arolygiaethgofal.cymru/archwiliadau-gan-y-gwasanaeth-datgelu-gwahardd>

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-update-service-promotional-material>

<https://www.cbscreening.co.uk/enhanced-dbs-check/>

---

<sup>7</sup> <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-personol>